**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO221

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Copi i: Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

8 Mai 2025

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mawrth 2025 at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS. Gan fod y mater yn ymwneud â pholisi Prydau Ysgol am Ddim, cafodd ei drosglwyddo i'r portffolio addysg am ymateb.

Fel y gwyddoch, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ymateb i'r cynnydd yn y galw am brydau ysgol am ddim sy'n deillio o'r pandemig ac i adolygu'r meini prawf cymhwystra, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y bydd adnoddau'n caniatáu ac o leiaf i bob plentyn ysgol gynradd.

Er bod yr ymrwymiad o ddarparu pryd ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd wedi'i gyflawni ym mis Medi 2024, rwy'n cydnabod bod rhai dysgwyr oedran uwchradd sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol ar hyn o bryd wedi'u heithrio rhag derbyn prydau ysgol am ddim yn seiliedig ar statws mewnfudo eu rhieni, waeth beth fo incwm eu haelwyd.

Dyna pam yr ysgrifennais at awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 2024 i'w hatgoffa am eu rôl hanfodol wrth gyflawni ein hymrwymiad cyffredin i fynd i'r afael â phlant sy'n llwgu ac i ystyried sut y gallant ddefnyddio eu pwerau yn ôl disgresiwn i ddarparu prydau mewn ysgolion uwchradd heb godi tâl – gan dargedu yn benodol y plant hynny o deuluoedd incwm isel sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus y mae eu statws mewnfudo yn golygu nad oes ganddynt hawl awtomatig. Rwyf hefyd wedi codi fy mhryderon ynghylch y mater hwn yn uniongyrchol gyda CLlLC.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i ymestyn cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim i gynnwys dysgwyr o aelwydydd incwm isel heb hawl i gyllid cyhoeddus, ac er bod yr Adran Addysg wedi nodi ei bod yn bwriadu deddfu ar gyfer y newidiadau y mae wedi'u gwneud, ar hyn o bryd mae'r estyniad o brydau ysgol am ddim i ddysgwyr o aelwydydd heb hawl i gyllid cyhoeddus wedi'i gyflawni trwy gyhoeddi canllawiau anstatudol yn unig.

Wrth fabwysiadu'r dull hwn, nid yw'r Adran Addysg wedi gallu monitro effaith y polisi yn gywir o ran ei effeithiolrwydd na'i gost. Gan ystyried y penderfyniadau anodd iawn a wnaed wrth osod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, nid ydym ar hyn o bryd yn ystyried dilyn polisi tebyg yng Nghymru yn absenoldeb data dibynadwy am yr effeithiau posibl.

Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol efallai nad yw fy ngohebiaeth ddiweddar gydag awdurdodau lleol ar y defnydd o bwerau yn ôl disgresiwn i ddarparu prydau bwyd heb godi tâl yn cael yr effaith a ddymunir. Mae hyn yn peri pryder mawr i mi.

Felly, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion am gyngor ar fyrder ynghylch beth arall y gellid ei wneud i gefnogi ymdrechion awdurdodau lleol i nodi a chefnogi dysgwyr heb hawl i gyllid cyhoeddus sydd angen pryd o fwyd, i ddeall a chael gwared ar rwystrau a allai fod yn atal y dysgwyr hyn rhag cael mynediad at gymorth, yn ogystal â gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer casglu data y gellir eu defnyddio i lywio a monitro penderfyniadau polisi yn ddibynadwy yn y dyfodol ynghylch cymorth i ddysgwyr heb hawl i gyllid cyhoeddus yn y tymor hwy.

Byddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.